

Polisi Gwerthuso Modiwlau

Corff Cymeradwyo: Y Pwyllgor Gwella Academaidd

Perchennog: Dirprwy Is-Ganghellor, Dysgu,
Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr

Cyswllt y polisi: Grŵp Llais y Myfyrwyr
see-projectgroup@aber.ac.uk

Statws y polisi: Crëwyd y polisi yn 2016

Dyddiad adolygu: Ionawr 2024

Newidiadau i'r polisi ar gyfer 2022	Cyfeirnod
Cynnwys modiwlau uwchraddedig yn y polisi hwn	1.1.4
Ychwanegu rhagor o esboniad i'r pwynt hwn	2.2.3
Gwahanu yn ddau bwynt (3.2.8 a 3.2.9)	3.2.8
Ychwanegu rhagor o esboniad i'r pwynt hwn	2.6.1

Pwynt newydd – Tuedd ddiarwybod	2.6.2
Pwynt newydd – Gellir defnyddio'r data ar gyfer dyrchafiadau academaidd	2.6.3
Pwynt newydd – Rhannu data gyda'r gwasanaethau proffesiynol	2.6.11
Cael gwared ar 3.2.11 anfon fersiwn ddrafft o cynllun gweithredu'r modiwl gan fod hyn yn digwydd yn awtomatig bellach	3.2.11

Tabl Cynnwys

1.	Cyflwyniad	4
1.1.	Diben y Polisi.....	4
1.2	Nodau ac Egwyddorion Craidd.....	4
1.3	Diffiniadau	5
1.4	Cwmpas.....	6
2	Polisi Gwerthuso Modiwlau	6
2.1	Hyrwyddo'r Holiadur Gwerthuso Modiwlau	6
2.2	Darparu	6
2.3	Darpariaeth ar y Cyd a Sefydliadau sy'n Bartneriaid.....	7
2.4	Dadansoddiadau, Cynlluniau Gweithredu ac Adroddiadau Gwerthuso Modiwlau.....	7
2.5	Canlyniadau Gwerthuso Modiwlau a Chyfathrebu	8
2.6	Hawl i Weld Data a Rhannu'r Canlyniadau	8
3	Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Gwerthuso Modiwlau	9
3.1	Myfyrwyr.....	10
3.2	Cydlynwyr Modiwlau	10
3.3	Penaethiaid Adrannau	11
3.4	Cyfarwyddwyr Astudiaethau Israddedig.....	11
3.5	Dirprwy Is-Ganghellor y Gyfadran.....	12
3.6	Rheolwyr Cyfadranau	12
3.7	Tîm Canolog yr Arolwg.....	12
3.8	Grŵp Rhanddeiliaid	13
3.9	Dirprwy Is-Ganghellor Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr.....	13
4	Y Broses Gwerthuso Modiwlau.....	13
4.1	Camau	13
4.2	Cam Paratoi.....	13
4.3	Cam Arolygu.....	14
4.4	Cam Dadansoddi a Chynllunio	14
4.5	Cam Adrodd a Chyfathrebu	14

1. Cyflwyniad

1.1. Diben y Polisi

- 1.1.1. Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymrwymo i ddarparu profiad dysgu o'r radd flaenaf i'r myfyrwyr. Mae'r myfyrwyr yn bartneriaid yn eu dysgu yn Aberystwyth, a rhoddir pwys mawr ar eu barn ynghylch cynlluniau academiaidd a phrofiad ehangach y myfyriwr. Mae gofyn i'r myfyrwyr werthuso'r ddarpariaeth yn un ffordd o gywain barn y myfyrwyr ac amlinellir yn y ddogfen hon bolisi a gweithdrefnau'r Brifysgol o ran:
 - 1.1.1 Y fframwaith cyffredinol a'r meini prawf ar gyfer rhoi'r broses gwerthuso modiwlau ar waith;
 - 1.1.2 Swyddogaethau a chyfrifoldebau'r rhanddeiliaid allweddol sy'n ymwneud â'r prosesau hyn; a
 - 1.1.3 Chamau'r broses gwerthuso modiwlau.

1.2 Nodau ac Egwyddorion Craidd

- 1.2.1 Gwella Ansawdd yn Barhaus. Diben gwerthuso modiwlau yw gwella profiad dysgu'r myfyrwyr. Y nod yw parhau i wella eu bodlonrwydd a'u llwyddiant, a pharhau i feithrin cyswllt â hwy. Mae gwranddo ar lais y myfyrwyr a chlywed eu barn am eu profiad dysgu, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, yn rhan ganolog o'r broses gwerthuso modiwlau. Mae gwerthuso modiwlau yn elfen allweddol o brosesau sicrhau a gwella ansawdd y Brifysgol.
- 1.2.2 Meithrin Cyswllt â'r Myfyrwyr. Dylid meithrin diwylliant sy'n annog y myfyrwyr, y staff academiaidd a staff y gwasanaethau proffesiynol i gael sgwrs wirioneddol. Un ffordd yn unig o gywain barn y myfyrwyr yw'r broses werthuso; ni ddylid ei gordefnyddio ac ni ddylai ddisodli'n llwyr y cyswllt wyneb yn wyneb rhwng y staff a'r myfyrwyr – naill ai drwy gynrychiolaeth y myfyrwyr ar bwyllgorau'r Brifysgol, pwyllgor y Gyfadran, Adran neu gwrs, neu Bwyllgorau Cyswllt Staff a Myfyrwyr. Dylid defnyddio'r broses gwerthuso modiwlau i feithrin deialog ac i wella cyswllt. Dylai'r staff a'r myfyrwyr gydweithio i ddefnyddio'r broses gwerthuso modiwlau mewn modd cadarnhaol ac adeiladol.
- 1.2.3 Cyfathrebu'n Effeithiol. Mae'r myfyrwyr yn bartneriaid yn eu dysgu yn Aberystwyth, ac o'r herwydd mae'n rhaid i ni ddangos ein bod yn rhoi pwys ar lais y myfyrwyr a chyfathrebu â'r myfyrwyr. Mae rhoi adborth i'r myfyrwyr yn hollbwysig yn hyn o beth. Mae hynny'n golygu sicrhau bod y data gwerthuso'n cael eu hystyried yn ofalus, bod cynlluniau gweithredu'n cael eu llunio a'u trafod â'r myfyrwyr, er enghraifft drwy'r Pwyllgorau Cyswllt Staff a Myfyrwyr, a'r canlyniadau'n cael eu cyfleu'n effeithiol drwy amryw o sianeli ac mewn da bryd.
- 1.2.4 Mae angen ystyried amryw o ffynonellau wrth fynd ati i wella ansawdd modiwlau. Mae'n bosib na fydd bob amser yn briodol newid modiwlau/cyrsiau yn uniongyrchol ar sail adborth y myfyrwyr yn unig, oherwydd mae lle hefyd i

ffynonellau gwybodaeth eraill. Cesglir data gwerthuso modiwlau er mwyn helpu i lywio barn academiaidd broffesiynol y staff dysgu, a helpu'r staff i ddatblygu eu rhaglenni academiaidd ar y cyd â'r myfyrwyr. Fodd bynnag, er mwyn parhau i gynnwys y myfyrwyr yn y prosesau gwerthuso a gwella, mae'n rhaid rhoi gwybod i'r myfyrwyr am ganlyniadau'r broses werthuso ac unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd. Dylai'r staff hefyd egluro pam na newidiwyd pethau yn sgil barn y myfyrwyr.

- 1.2.5 **Sail Gyfreithlon:** Cynhelir gweithgareddau prosesu'r holiaduron gwerthuso modiwlau ar sail 'buddiant busnes dilys' y Brifysgol.

1.3 Diffiniadau

- 1.3.1 **Modiwl:** Uned a chredydau ynghlwm wrthi mewn cynllun astudio.
- 1.3.2 **Gwerthuso Modiwlau:** Y broses lle mae'r myfyrwyr yn asesu ac yn rhoi sgôr i'w hastudiaethau academiaidd ac ansawdd yr addysgu yn y modiwl dan sylw, ac yn rhoi adborth arnynt.
- 1.3.3 **Holiadur Gwerthuso Modiwl (HGM):** Yr HGM yw'r holiadur y mae'r myfyrwyr yn ei lenwi. Mae'n cael ei ddarparu'n ganolog ond yn cael ei weinyddu gan unedau academiaidd, ac yn cynnwys cwestiynau craidd, cwestiynau sy'n ymwneud yn benodol â'r modiwl dan sylw a meysydd testun rhydd. Mae'r ymatebion i'r HGM yn ddienw.
- 1.3.4 **Dangosfwrdd yr HGM:** Dangosfwrdd yr HGM yw'r system sy'n rheoli ac yn cynnal y drefn gwerthuso modiwlau. Cafodd y system hon ei dylunio o fewn y Brifysgol ac mae'n cael ei rhedeg yn fewnol hefyd.
- 1.3.5 **Cydlynnydd Modiwl:** Yr aelod o'r staff academiaidd sy'n gyfrifol am fodiwl. Gall y modiwl gynnwys nifer o staff dysgu eraill.
- 1.3.6 **Cyfnod yr HGM:** Y cyfnod (wedi'i fynegi mewn wythnosau dysgu, e.e. wythnosau 7-10 Semester 1 a 2) pan fo'n rhaid cynnal yr HGM. Bydd cydlynwyr modiwlau a staff dysgu'r modiwl yn cynnal yr HGM yn y dosbarth yn ystod y cyfnod hwn.
- 1.3.7 **Adborth Parhaus (gan y myfyrwyr):** Y broses lle gall y myfyrwyr roi adborth ar unrhyw adeg ynglŷn â'u profiad, yn hytrach na thrwy gyfrwng prosesau gwerthuso penodol.
- 1.3.8 **Cyfarwyddwr Astudiaethau Israddedig (CAI):** Yr unigolyn sy'n gyfrifol am ddysgu ac addysgu yn yr adran / Cyfadran. Mae hyn yn cwmpasu pob swydd yn y Cyfadranau / Adranau o dan y teitlau Cyfarwyddwr Astudiaethau Israddedig (CAI) a Chyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu (CDA).
- 1.3.9 **Pennaeth Adran (PA):** Pennaeth adran academiaidd neu Arweinydd Thema mewn swydd yn y Gyfadran.

1.4 Cwmpas

- 1.4.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob cynllun israddedig ac uwchraddedig ym Mhrifysgol Aberystwyth, gan gynnwys y rhai a ddysgir drwy drefniadau ar y cyd â sefydliadau sy'n bartneriaid i ni, er y gall union drefniadau ymarferol partneriaid amrywio. Mae'r broses HGM ffurfiol yn berthnasol i bob modiwl israddedig ac uwchraddedig.
- 1.4.2 Mae'r polisi'n berthnasol i holiaduron gwerthuso modiwlau a gynhelir yn fewnol yn unig. Nid yw'n berthnasol i brosesau gwerthuso allanol fel Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr, Baromedr y Myfyrwyr Rhyngwladol, yr Arolwg o Brofiad Uwchraddedigion a Ddysgir drwy Gwrs (PTES), a'r Arolwg o Brofiad Uwchraddedigion Ymchwil (PRES).

2 Polisi Gwerthuso Modiwlau

2.1 Hyrwyddo'r Holiadur Gwerthuso Modiwlau

- 2.1.1 Cyfathrebu canolog trwy e-bost i'r holl fyfyrwyr
- 2.1.2 Cyfathrebu ar lafar a thrwy e-bost â'r garfan o fyfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar y modiwl gan gydlynnydd y modiwl neu unigolyn cyfatebol a enwebwyd.
- 2.1.3 Cyfathrebu ar Blackboard ynghylch y camau a gymerwyd neu nas cymerwyd.

2.2 Darparu

- 2.2.1 Mae'r Brifysgol yn disgwyl i bob aelod o'r staff ofyn barn y myfyrwyr ynglŷn â phrofiad dysgu modiwl ar adegau priodol a chan ddefnyddio dulliau priodol. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer modiwlau sy'n para drwy gydol y flwyddyn academaidd ac er mwyn gwneud newidiadau'n syth bin i'r modiwl neu'r profiad dysgu yn ôl y galw.
- 2.2.2 Rhaid gwerthuso pob modiwl yn ffurfiol gan ddefnyddio'r HGM bob tro y cynhelir y modiwl. Rhaid gweinyddu HGM y Modiwl yn ystod Cyfnod yr HGM a hysbysebwyd. Rhaid i unrhyw eithriadau i hyn gael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan Ddirprwy Is-Ganghellor y Gyfadran neu'r Dirprwy Is-Ganghellor sydd â chyfrifoldeb am Ddysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr. Bydd tîm canolog y broses werthuso yn cadw cofnod o'r rhain. Er mai drwy gyfrwng yr holiaduron gwerthuso y caiff modiwlau eu gwerthuso'n ffurfiol, anogir staff i gynnal prosesau gwerthuso ffurfiannol ar ganol modiwlau hefyd.
- 2.2.3 Bydd y drefn werthuso yn cael ei chynnal ar-lein ac yn y dosbarth, gan ddefnyddio'r dangosfwrdd HGM. Gall eithriadau i werthuso'r modiwl ar-lein gynnwys Masnachfreintiau, modiwlau uwchraddedig ac unrhyw werthuso sydd wedi'i amserlennu pan na fydd cysylltiad rhyngrwyd ar gael e.e. modiwlau teithiau maes. Pan fydd y gwerthuso wedi'i gynnal ar bapur, cyfrifoldeb cydlynnydd y modiwl yw cofnodi'r atebion ar y dangosfwrdd HGM.
- 2.2.4 Er mwyn ceisio sicrhau na chaiff y myfyrwyr eu llethu â holiaduron, mae'r HGM yn disodli pob holiadur / arolwg gwerthuso modiwl arall, heblaw'r rhai ffurfiannol ar ganol modiwl neu adborth parhaus. Bydd unrhyw werthuso ychwanegol, lle y

bo hynny'n berthnasol, yn cael ei drefnu gan yr Adran / Cyfadran ac ni ddylent gymryd lle'r HGM.

- 2.2.5 Cydlynwyr modiwlau sy'n gyfrifol am sicrhau bod eu modiwlau'n cael eu gwerthuso drwy'r HGM. Nhw sy'n gyfrifol am ddewis pryd i gynnal yr holiadur o fewn Cyfnod yr HGM. Cydlynnydd y modiwl a/neu'r staff academiaidd sy'n dysgu'r modiwl fydd yn cynnal yr HGM fel arfer.
- 2.2.6 Mewn amgylchiadau eithriadol gall y Dirprwy Is-Ganghellor sydd â chyfrifoldeb am Ddysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr fynnu bod HGM modiwl(au) a/neu adrannau'n cael eu gweinyddu'n ganolog. Os digwydd hyn, rhoddir gwybod i'r cydlynnydd/cydlynwyr modiwl perthnasol a'r adran berthnasol/adrannau perthnasol cyn Cyfnod yr HGM.
- 2.2.7 Mae'r HGM yn cynnwys set graidd o gwestiynau gorfodol i sicrhau bod modiwlau'n cael eu gwerthuso mewn modd cyson ledled y Brifysgol. Caiff cydlynwyr modiwlau ddewis ychwanegu hyd at bedwar cwestiwn sy'n ymwneud yn benodol â'r modiwl dan sylw.
- 2.2.8 Bydd myfyrwyr yn aros yn ddiennw ym mhob proses gwerthuso modiwlau, ac eithrio dan rai amgylchiadau eithriadol pan allai'r myfyriwr, er enghraifft, fod yn risg iddo'i hun neu i eraill.
- 2.2.9 Rhaid i ddulliau o roi'r HGM ar waith ac ymatebion i farn y myfyrwyr gydnabod amrywiaeth y cynlluniau a gynigiwn, o safbwynt y cynnwys, y dull cyflwyno, lleoliad y campws a lefel a chyfansoddiad corff y myfyrwyr.

2.3 Darpariaeth ar y Cyd a Sefydliadau sy'n Bartneriaid

- 2.3.1 Ar gyfer modiwlau a gynigir ar gampysau cangen, gan sefydliadau sy'n bartneriaid neu drwy ddarpariaeth ar y cyd, dylid gwerthuso modiwlau gan ddefnyddio cwestiynau'r HGM, a rhoi'r holiadur ar waith mewn dull priodol o fewn cyfnod a bennir gyda'r Dirprwy Is-Ganghellor sydd â chyfrifoldeb am Ddysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr.
- 2.3.2 Dylid rhannu canlyniadau prosesau gwerthuso modiwlau â Thiworiaid Cyswllt, CAI perthnasol, Pennaeth yr Adran a'r tîm gwerthuso canolog.

2.4 Dadansoddiadau, Cynlluniau Gweithredu ac Adroddiadau Gwerthuso Modiwlau

- 2.4.1 Ar ôl derbyn canlyniadau'r HGM bydd Cydlynwyr Modiwlau'n cwblhau Cynllun Gweithredu HGM y Modiwl. Caiff hwn wedyn ei anfon at y CAI perthnasol i'w gymeradwyo.
- 2.4.2 Bydd y CAI perthnasol yn cwblhau Cynllun Gweithredu HGM yr adran/Cyfadran (fel y bo'n briodol) yn seiliedig ar ddata'r adran/Cyfadran a Chynlluniau Gweithredu Modiwlau unigol sydd wedi'u cwblhau.
- 2.4.3 Rhaid gwneud unrhyw newidiadau i fodiwl neu gynllun yn sgil proses yr HGM yn unol â'r Llawlyfr Ansawdd Academiaidd.

- 2.4.4 Dylid ymateb i adborth y myfyrwyr yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Brifysgol.
- 2.4.5 Bydd angen defnyddio amryw o weithdrefnau sy'n casglu gwybodaeth gan y myfyrwyr, y staff, arholwyr allanol, a lle y bo hynny'n briodol, Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio, i lywio unrhyw newid. Gan mai dim ond un ffynhonnell wybodaeth am ansawdd y ddarpariaeth addysgu a gwasanaethau i fyfyrwyr yw'r farn y mae myfyrwyr yn ei mynegi yn yr HGM, mae'n rhaid ei hystyried law yn llaw â gwybodaeth arall ac ni ddylid o reidrwydd weithredu ar sail y wybodaeth hon ar ei phen ei hun.
- 2.4.6 Caiff cyfraddau bodlonrwydd a chyfraddau ymatebion i'r HGM eu monitro'n ganolog, a darperir adroddiadau rheoli cryno i'r cyfadrannau a'r adrannau.
- 2.4.7 Ni chaiff canlyniadau'r HGM byth eu dadansoddi mewn ffordd a allai ddatgelu pwy yw myfyrwyr unigol drwy eu hymatebion.
- 2.4.8 Os bydd aelod o'r staff o'r farn bod sylwadau a ddaw i law drwy'r HGM yn torri Rheolau a Rheoliadau'r Myfyrwyr, dylid codi hynny â'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dysgu ac Addysgu perthnasol a gaiff benderfynu, yn ôl ei ddisgresiwn, eu diystyru.

2.5 Canlyniadau Gwerthuso Modiwlau a Chyfathrebu

- 2.5.1 Rhoddir gwybodaeth amserol i'r myfyrwyr am ganlyniadau'r broses gwerthuso modiwlau ynghyd ag ymatebion i'r materion a godwyd. Cyhoeddir y rhain ar y rhith-amgylchedd dysgu ymhen wythnos, lle bynnag y bo hynny'n bosib, ar ôl cwblhau cynllun gweithredu'r modiwl. Rhaid rhoi gwybod i'r myfyrwyr fod yr adborth ar gael. Cyhoeddir crynodeb hefyd yn fersiwn nesaf y modiwl ar y rhith-amgylchedd dysgu ar gyfer y flwyddyn/carfan nesaf.
- 2.5.2 Dylid rhoi gwybod i'r myfyrwyr am ganlyniadau crai'r HGM a'u trafod â hwy wyneb yn wyneb cyn gynted â phosib ac erbyn diwrnod dysgu olaf y semester.
- 2.5.3 Dylai'r staff hefyd egluro pam na chafodd newidiadau a awgrymwyd eu rhoi ar waith ar sail barn y myfyrwyr yn unrhyw adborth.
- 2.5.4 Dylid cyflwyno ymatebion ar lefel yr adrannau yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau Cyswllt Staff a Myfyrwyr.

2.6 Hawl i Weld Data a Rhannu'r Canlyniadau

- 2.6.1 Defnyddir data'r HGM at ddibenion gwella ansawdd ac mae'n bosibl y byddant yn cael eu hystyried, ynghyd â setiau data perthnasol eraill (e.e. arolygon mewnol ac allanol), i lywio barn y sefydliad ynghylch profiad y myfyrwyr o ddysgu ac addysgu.
- 2.6.2 Wrth adolygu'r canlyniadau, dylai'r Adrannau fod yn ymwybodol hefyd o'r perygl o duedd ddiarwybod ar ran y myfyrwyr wrth iddynt gwblhau'r broses werthuso.

- 2.6.3 Gall staff academiaidd ddefnyddio canlyniadau'r broses gwerthuso modiwlau fel tystiolaeth o ragoriaeth y dysgu a'r addysgu at ddibenion amrywiol gan gynnwys dyrchafiadau academiaidd, Adolygiadau o Ddatblygiad Perfformiad a cheisiadau am wobrau mewnol neu allanol.
- 2.6.4 Caiff cydlynwyr modiwlau weld canlyniadau HGM eu modiwl(au). Fe'u hanogir i'w rhannu (naill ai'n llawn neu'n rhannol) ag aelodau eraill o'r staff sy'n dysgu ar yr un modiwl yn ôl eu disgrisiwn.
- 2.6.5 Caiff cydlynwyr cynlluniau weld canlyniadau HGM modiwlau sy'n rhan o'u cynlluniau.
- 2.6.6 Caiff Penaethiaid Adrannau weld canlyniadau HGM pob modiwl yn yr adran. Yn ôl eu disgrisiwn, cânt rannu'r canlyniadau meintiol o fewn eu adrannau. Anogir adrannau i rannu'r canlyniadau ag adrannau eraill ar gyfer modiwlau sy'n rhan o gynlluniau ar y cyd.
- 2.6.7 Caiff y CAI perthnasol weld canlyniadau HGM pob modiwl yn yr adran/cyfadran.
- 2.6.8 Caiff y Dirprwy Is-Ganghellor a Deon Cysylltiol Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr pob Cyfadran weld canlyniadau HGM pob modiwl yn eu cyfadran. Os bydd y Pennaeth Adran a'r Cyfarwyddwr Astudiaethau Israddedig perthnasol yn cytuno, caiff y canlyniadau meintiol eu rhannu o fewn y gyfadran. Gall Penaethiaid Adrannau weld y canlyniadau ar gyfer eu hadran.
- 2.6.9 Caiff Gweithrediaeth y Brifysgol a thîm canolog yr arolwg weld holl ganlyniadau'r HGM.
- 2.6.10 Bydd crynodeb o'r data ar gael i bwyllgorau'r Brifysgol sy'n ymwneud â sicrhau neu wella ansawdd.
- 2.6.11 Bydd adroddiadau priodol yn cael eu rhannu'n rheolaidd â'r gwasanaethau proffesiynol perthnasol er mwyn cynorthwyo i wella'r gwasanaethau hynny'n barhaus.
- 2.6.12 Dylid rhannu canlyniadau gwerthuso modiwlau darpariaeth ar y cyd / sefydliadau sy'n bartneriaid â'r Tiwtoriaid Cyswllt perthnasol. Bydd y rhain yn rhan o ganlyniadau'r adran.
- 2.6.13 Ceir defnyddio'r data fel arall yn ôl disgrisiwn y Dirprwy Is-Ganghellor sydd â chyfrifoldeb am Ddysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr os oes achos clir dros eu defnyddio i wella ansawdd profiad y myfyrwyr. Bydd yr ymatebion yn aros yn ddienw. Rhaid cyflwyno achos dros ddefnyddio data ansoddol a meintiol y tu hwnt i'r defnydd a nodwyd.

3 Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Gwerthuso Modiwlau

3.1 Myfyrwyr

- 3.1.1 Anogir y myfyrwyr i gymryd rhan yn y broses gwerthuso modiwlau a rhoi adborth adeiladol.
- 3.1.2 Cwblhau holiaduron gwerthuso modiwlau yn onest a chydag ystyriaeth a pharch tuag at y staff dysgu a'r staff cymorth ar gyfer pob modiwl yn unol â Rheolau a Rheoliadau'r Myfyrwyr.

3.2 Cydlynwyr Modiwlau

- 3.2.1 Sicrhau bod cofnod data ASTRA y modiwl yn gywir, yn enwedig o ran manylion cydlynnydd y modiwl a'r staff dysgu.
- 3.2.2 Sicrhau bod HGM y modiwl yn cael ei gynnal o fewn y cyfnod y cytunwyd arno ar gyfer cynnal HGM.
- 3.2.3 Bydd cydlynnydd neu staff dysgu'r modiwl fel arfer yn gweinyddu'r HGM yn y dosbarth.
- 3.2.4 Sicrhau, yn ôl y galw, fod hyd at bedwar cwestiwn yn yr HGM sy'n ymwneud yn benodol â'r modiwl dan sylw yn cael eu llunio, eu cyfieithu a'u cyflwyno cyn y dyddiad cau perthnasol.
- 3.2.5 Nodi pryd y bwriadant gynnal yr arolwg cyn i Gyfnod yr HGM ddechrau.
- 3.2.6 Sicrhau, lle y bo hynny'n bosib, fod y data a gesglir yn nodweddiadol o'r garfan o fyfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys defnyddio dulliau i wella cyfradd yr ymwneud â'r broses werthuso, annog myfyrwyr i gwblhau'r holiadur ac egluro'r buddion, ac annog presenoldeb.
- 3.2.7 Sicrhau nad ydynt yn dylanwadu ar y myfyrwyr wrth iddynt gwblhau'r HGM a'u bod yn rhoi pob cyfle i'r myfyrwyr gwblhau'r HGM yn annibynnol ac i fynegi eu barn yn onest.
- 3.2.8 Dadansoddi canlyniadau'r HGM a llunio Cynllun Gweithredu'r Modiwl erbyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd. Sicrhau bod Cynllun Gweithredu'r Modiwl yn cael ei ysgrifennu yn yr un iaith ag y cyflwynir y modiwl ynddi.
- 3.2.9 Pan fydd modiwlau'n cael eu dysgu ar y cyd (modiwlau rhiant/plentyn) a bod yr holl garfan o fyfyrwyr wedi gwerthuso'r modiwl yn y fersiwn rhiant, rhaid i gydlynwyr sicrhau bod y cynllun gweithredu yn cael ei gwblhau ar gyfer y fersiwn/fersiynau plentyn hefyd.
- 3.2.10 Llwytho adborth i'r myfyrwyr, wedi iddo gael ei gymeradwyo gan y CAI, ar Blackboard ymhen wythnos ar ôl cwblhau'r cynllun gweithredu. Rhaid rhoi gwybod i'r myfyrwyr fod yr adborth ar gael. Cyhoeddir crynodeb hefyd yn fersiwn nesaf y modiwl ar y rhith-amgylchedd dysgu ar gyfer y flwyddyn/carfan nesaf.
- 3.2.11 Rhoi gwybod i'r myfyrwyr am ganlyniadau crai'r HGM a'u trafod â hwy wyneb yn wyneb cyn gynted â phosib ac erbyn diwrnod dysgu olaf y semester.

- 3.2.12 Sicrhau bod yr holl gamau gweithredu sy'n ymwneud yn benodol â'r modiwl dan sylw a nodir yng Nghynllun Gweithredu'r Modiwl yn cael eu cwblhau.

3.3 Penaethiaid Adrannau

- 3.3.1 Bod â chyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y broses gwerthuso modiwlau'n gweithio'n effeithiol yn eu hadran. Mae hyn yn golygu cynnwys y staff ar bob lefel, ymdrin â materion o bwys wrth iddynt godi, monitro cynlluniau gweithredu, a sicrhau bod y staff yn cyflawni eu cyfrifoldebau fel y'u hamlinellir yn y polisi hwn.
- 3.3.2 Sicrhau bod cydlynnydd wedi'i glustnodi i bob modiwl.
- 3.3.3 Sicrhau bod pob modiwl yn yr adran yn destun arolwg gan ddefnyddio'r HGM o fewn y cyfnod y cytunwyd arno ar gyfer yr HGM.
- 3.3.4 Sicrhau bod cynlluniau gweithredu'n cael eu llunio ar gyfer pob modiwl sy'n destun arolwg ac ar gyfer yr adran gyfan, er mwyn sicrhau bod ansawdd yr addysgu'n uchel.
- 3.3.5 Sicrhau bod y camau gweithredu a amlinellir yn y cynlluniau'n cael eu cyflawni a'u monitro a bod eu heffaith yn cael ei hadolygu.

3.4 Cyfarwyddwyr Astudiaethau Israddedig

- 3.4.1 Gweithio gyda Chydlynwyr Modiwlau a'r Pennaeth Adran perthnasol/ Dirprwy Is-Ganghellor y Gyfadran berthnasol i sicrhau bod pob modiwl yn yr adran / cyfadran (fel y bo'n briodol) yn destun arolwg drwy gyfrwng HGM o fewn cyfnod penodedig yr HGM.
- 3.4.2 Cwblhau Cynllun Gweithredu HGM yr adran yn seiliedig ar ddata'r adran a Chynlluniau Gweithredu Modiwlau unigol.
- 3.4.3 Anfon Cynllun Gweithredu'r Adran at dîm canolog yr arolwg.
- 3.4.4 Sicrhau bod ansawdd y cynlluniau gweithredu a ddatblygir yn ddigonol ac yn gwella'r dysgu a'r addysgu yn yr adran / cyfadran.
- 3.4.5 Sicrhau bod y camau gweithredu a amlinellir yng Nghynlluniau Gweithredu'r Adran yn cael eu cyflawni a'u monitro a bod eu heffaith yn cael ei hadolygu.
- 3.4.6 Cyflwyno Cynlluniau Gweithredu'r Adran yn y Pwyllgor Dysgu ac Addysgu perthnasol.
- 3.4.7 Darparu crynodeb o Gynllun Gweithredu'r Adran i'r Pwyllgor Cyswllt Staff a Myfyrwyr nesaf.
- 3.4.8 Darparu crynodeb ar gyfer dogfen y Monitro Blynnyddol ar Gynlluniau a Ddysgir trwy Gwrs o'r pwyntiau gweithredu a'r dyddiadau targed ar gyfer eu cwblhau.

3.5 Dirprwy Is-Ganghellor y Gyfadran

- 3.5.1 Bod â chyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y broses gwerthuso modiwlau'n gweithio'n effeithiol yn eu cyfadran. Mae hyn yn golygu cynnwys y staff ar bob lefel, ymdrin â materion o bwys wrth iddynt godi, monitro cynlluniau gweithredu, a sicrhau bod yr adrannau'n cyflawni eu cyfrifoldebau fel y'u hamlinellir yn y polisi hwn.
- 3.5.2 Nodi themâu a materion a gododd yn yr HGM sy'n gyffredin ledled y gyfadran, ac ymdrin â hwy.

3.6 Rheolwyr Cyfadrannau

- 3.6.1 Gallant, yn ôl disgrisiwn Dirprwy Is-Ganghellor y gyfadran, reoli rhai agweddau gweinyddol ar yr HGM ar lefel y gyfadran.

3.7 Tîm Canolog yr Arolwg

- 3.7.1 Llunio dogfennau canllaw ar werthuso modiwlau, prosesau a dyddiadau / amseroedd a gymeradwyir gan y Dirprwy Is-Ganghellor sydd â chyfrifoldeb am Ddysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr.
- 3.7.2 Datblygu systemau a ddefnyddir i gyflwyno, monitro ac adrodd ar yr HGM.
- 3.7.3 Cymeradwyo neu wrthod sylwadau os ydynt yn annerbyniol, yn ymosodol, yn sarhaus, yn fygythiol, yn ddiangen o bersonol neu'n emosiynol andwyol – neu os bernir bod y sylw'n groes i reolau a rheoliadau'r myfyrwyr.
- 3.7.4 Dylai'r holl sylwadau a gyflwynir drwy'r holiaduron gwerthuso modiwlau gydfynd â Rheolau a Rheoliadau'r Myfyrwyr.
- 3.7.5 Monitro'r HGM, gan uwchgyfeirio materion fel y bo'n briodol at Benaethiaid Adrannau, Dirprwy Is-Ganghellor y Gyfadran a'r Dirprwy Is-Ganghellor sydd â chyfrifoldeb am Ddysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr.
- 3.7.6 Rheoli'r holl gofnodion sy'n ymwneud â gwerthuso ac adborth meintiol ac ansoddol.
- 3.7.7 Llunio adroddiadau i Weithrediaeth y Brifysgol, y cyfadrannau ac adrannau.
- 3.7.8 Hyrwyddo'r broses gwerthuso modiwlau ymhlith y staff a'r myfyrwyr, a chyfathrebu â hwy ynglŷn â'r broses.
- 3.7.9 Darparu hyfforddiant, cyngor, cymorth ac arweiniad ar brosesau a systemau gwerthuso modiwlau.
- 3.7.10 Gweithio gyda staff, myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr i wella ymwneud y staff a'r myfyrwyr â'r broses gwerthuso modiwlau.
- 3.7.11 Cynnal ymgyrchoedd cyfathrebu canolog ar fentrau ar lefel y Brifysgol sy'n deillio o adborth y broses gwerthuso modiwlau.

- 3.7.12 Trefnu cyfarfodydd rheolaidd o'r Grŵp Rhanddeiliaid, sy'n cynnwys staff academiaidd sy'n cynrychioli'r holl gyfadrannau, staff gweinyddol a myfyrwyr.

3.8 Grŵp Rhanddeiliaid

- 3.8.1 Codi unrhyw faterion sy'n ymwneud â gwerthuso modiwlau.
- 3.8.2 Darparu cyngor ac adborth ar y broses gwerthuso modiwlau gan gynnwys dogfennau canllaw, prosesau, systemau a dyddiadau / amseroedd.
- 3.8.3 Cynorthwyo i barhau i wella'r broses gwerthuso modiwlau ym Mhrifysgol Aberystwyth.
- 3.8.4 Bod yn hyrwyddwyr gwerthuso modiwlau yn eu priod unedau academiaidd.

3.9 Dirprwy Is-Ganghellor Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr

- 3.9.1 Bod â chyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y broses gwerthuso modiwlau'n gweithio'n effeithiol i'r Brifysgol. Mae hyn yn golygu cynnwys y staff uwch, sicrhau adnoddau, ymdrin â materion o bwys wrth iddynt godi, cadw golwg gyffredinol ledled y Brifysgol, a sicrhau bod y cyfadrannau yn cyflawni eu cyfrifoldebau fel y'u hamlinellir yn y polisi hwn.
- 3.9.2 Sicrhau bod ansawdd yr addysgu leded y Brifysgol yn uchel ac y defnyddir y broses gwerthuso modiwlau i barhau i wella ansawdd.
- 3.9.3 Gosod targedau, trothwyon a Dangosyddion Perfformiad Allweddol yr HGM.
- 3.9.4 Cymeradwyo dogfennau canllaw manwl, prosesau a dyddiadau / amseroedd ar werthuso modiwlau.

4 Y Broses Gwerthuso Modiwlau

4.1 Camau

- 4.1.1 Gellir rhannu'r broses HGM, yn fras, yn gamau fel y nodir isod. Bydd mwy o fanylion am yr union brosesau, systemau a dyddiadau / amseroedd ar gael mewn dogfennau canllaw sy'n mynd law yn llaw â'r polisi hwn. Disgrifir pob cam isod ynghyd â rhai o'r prosesau allweddol ym mhob cam.

4.2 Cam Paratoi

- 4.2.1 Gohebiaeth i godi ymwybyddiaeth ymhlith staff a myfyrwyr
- 4.2.2 Cyfarfodydd croesawu myfyrwyr yn ystod yr Wythnos Gynefino sy'n rhoi sylw i'r HGM
- 4.2.3 Hyfforddiant, cyngor a chymorth i'r staff ar brosesau / systemau'r HGM (ym mhob cam)

4.2.4 Cyflwyno cwestiynau sy'n ymwneud yn benodol â'r modiwl dan sylw

4.2.5 Amserlennu cynnal yr HGM i bob modiwl

4.3 Cam Arolygu

4.3.1 Gohebiaeth i atgoffa'r staff a'r myfyrwyr.

4.3.2 Staff academiaidd yn cynnal yr HGM yn ystod Cyfnod yr HGM. Yn unol ag arfer da, yr ydym yn argymhell cynnal y broses ar ddechrau'r modiwl er mwyn caniatáu digon o amser i gwblhau'r holiaduron yn ystod cyfnod yr arolwg.

4.3.3 Monitro cynnydd yr HGM ar lefel y Brifysgol / cyfadran / adran.

4.4 Cam Dadansoddi a Chynllunio

4.4.1 Cynlluniau Gweithredu Modiwlau.

4.4.2 Cynlluniau Gweithredu'r Adran / Cyfadran.

4.4.3 Rhoi'r camau gweithredu ar waith.

4.5 Cam Adrodd a Chyfathrebu

4.5.1 Rhoi crynodeb o Gynlluniau Gweithredu Modiwlau ar Blackboard.

4.5.2 Cyflwyno Cynlluniau Gweithredu'r Adrannau / Cyfadran mewn Pwyllgorau Dysgu ac Addysgu.

4.5.3 Cyflwyno crynodeb o Gynlluniau Gweithredu'r Adrannau / Cyfadran yn y Pwyllgorau Cyswllt Staff a Myfyrwyr.

4.5.4 Ymgyrch gan y Brifysgol a'r Adran / Cyfadran i roi gwybod i'r myfyrwyr am y camau a gymerwyd.

4.5.5 Adolygu effaith y camau a gymerwyd.

4.5.6 Canlyniadau'r HGM yn bwydo i broses y Monitro Blynyddol ar Gynlluniau a Ddysgir trwy Gwrs.